**EITEM AR YR AGENDA: 8**

## PANEL GWEITHREDOL
## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**28 Hydref 2013**

## PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

### Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr orsaf dân ac ambiwlans arfaethedig yn Wrecsam.

### Cefndir

2 Cyflwynwyd adroddiad i'r Awdurdod ar 16eg Medi 2013 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gostau'r prosiect gan ddefnyddio arfarniad o'r opsiynau costau, dadansoddiad o fudd y prosiect a chamau Gweinidogion a mewnbwn Llywodraeth Cymru wrth geisio cael y prosiect yn ôl ar y trywydd iawn.

3 Penderfynodd yr Aelodau ailgychwyn rhaglen waith y prosiect ar y cyd ag YGAC ar Ffordd Croesnewydd.

### Gwybodaeth

4 Ar 16eg Hydref 2013, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o fwrdd y prosiect ers atal y rhaglen waith dros y dro.

5 Dyma gerrig milltir newydd y rhaglen:-

- Cyflwyno cais cynllunio ddechrau Tachwedd 2013
- Cyflwyno Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru erbyn Chwefror 2014
- Y sylfaen a'r llwyfan llifogydd ddechrau Mehefin 2014
- Codi'r prif adeilad ddechrau mis Hydref 2014
- Cwblhau'r gwaith adeiladu ddiwedd Medi 2015.

6 Mae'r lluniau a grewyd ar gyfrifiadur (Atodiad 1) yn dangos i'r Aelodau sut y bydd yr adeilad yn edrych.

7 Bu bwrdd y prosiect yn ailystyried ei gylch gorchwyl, ac mae wedi awgrymu cael cynrychiolydd o blith aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub i fod ar y bwrdd er mwyn darparu rhywfaint o annibyniaeth er mwyn rhoi sicrwydd i'r prosiect. Mae un o gyfarwyddwyr anweithredol YGAC eisoes ar y bwrdd yn yr un modd.

8 Cynhelir cyfarfod nesaf bwrdd y prosiect ar 12 Tachwedd 2013.

**Argymhellion**

9 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;
(ii) ystyried enwebu i fwrdd y prosiect.